TGAU

# TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

## Manyleb

I'w addysgu o fis Medi 2026
Dyfarniad Cyntaf 2028



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant sy'n nodi'r gofynion pwnc penodol ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal o fis Medi 2026 a thu hwnt.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2025.

## CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU .......... 4
1 CYFLWYNIAD .......... 6
1.1 Nodau .......... 6
1.2 Cwricwlwm i Gymru .......... 6
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant .......... 8
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad .......... 8
1.5 Defnyddio iaith .......... 9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg .......... 9
2 CYNNWYS Y PWNC .......... 10
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad .......... 10
Gwybodaeth am Unedau .......... 10
Uned 1 .......... 10
Uned 2 .......... 19
Uned 3 .......... 26
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu .......... 32
3 ASESU .......... 33
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli .......... 33
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad .......... 34
4 CAMYMDDWYN .......... 35
5 GWYBODAETH DECHNEGOL .......... 36
5.1 Cofrestru a dyfarnu .......... 36
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl .......... 38
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru .......... 39

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru yn yr 21ain Ganrif**<br>**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**<br>**40% o'r cymhwyster**<br>**80 marc** |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC. Bydd yr asesiad yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, gyda rhai ohonynt yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| **Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion**<br>**Asesiad di-arholiad: 12 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.<br>Bydd briff yr asesiad, a fydd yn cynnwys dewis o astudiaethau achos a sawl tasg, i'w weld ar wefan Porth CBAC. |
| **Uned 3: Gofal Plant**<br>**Asesiad di-arholiad: 12 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.<br>Bydd briff yr asesiad, a fydd yn cynnwys astudiaeth achos a sawl tasg, i'w weld ar wefan Porth CBAC. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn gyflwyno'r ddwy uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd arholiad Uned 1 ar gael ym mis Mehefin 2027.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Caiff Uned 2 ac Uned 3 eu hasesu trwy asesiadau a osodir yn allanol gan CBAC. Bydd y briffiau asesu ar gael ym mis Medi yr ail flwyddyn astudio, i'w cwblhau erbyn haf y flwyddyn astudio olaf. Bydd yr unedau'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yn 2028. Bob blwyddyn, ar y cyfan, bydd strwythur yr asesiad ar gyfer y ddwy uned yn aros yr un fath.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2028.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/5166/8

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cefnogi dysgwyr i:

- ddeall egwyddorion datblygiad dynol, iechyd a llesiant
- archwilio sut mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cefnogi ac yn hybu datblygiad, iechyd a llesiant unigolion
- disgrifio'r egwyddorion, y gwerthoedd a'r dulliau sy'n sail i waith gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru
- deall cyflyrau ac anhwylderau allweddol sy'n effeithio ar oedolion a phlant
- archwilio thema drawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau penodol i'r pwnc hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 32; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Mae'r cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd corfforol a llesiant drwy gydol oes unigolyn, gan gynnwys ymddygiadau sy'n hybu iechyd, er enghraifft, gweithgarwch corfforol, a deall ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd
  - datblygu ymddygiadau cadarnhaol, gwybodus sy'n annog dysgwyr i barchu a gofalu am eu hunain ac eraill mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, ac yng nghyd-destun gofal plant
  - archwilio'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol
  - creu diwylliant sy'n normaleiddio siarad am iechyd meddwl a llesiant emosiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - datblygu'r sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau, gan gynnwys y risg, iddyn nhw ac i eraill
  - ymwneud yn feirniadol â dylanwadau cymdeithasol o fewn eu diwylliant eu hunain yn ogystal â diwylliannau eraill, er mwyn deall sut y mae normau a gwerthoedd yn datblygu
  - deall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael effaith ar y dysgwyr eu hunain, ar eraill, ac ar gymdeithas ehangach, a hynny nawr ac yn y dyfodol
  - deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau, gan eu rhoi mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau gwybodus ac ystyriol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - datblygu'r sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ddatblygu eu hannibyniaeth a'u gweithrediaeth mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant, gan arwain at gyfrifoldeb cynyddol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain
  - datblygu gwybodaeth gysyniadol a dealltwriaeth feirniadol mewn amrywiaeth o agweddau ar iechyd a llesiant ac ymddygiad personol
  - datblygu cysylltiadau rhwng agweddau ar iechyd a llesiant ac amrywiaeth eang o destunau a materion mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - datblygu gwerthfawrogiad o anghenion eraill mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ac effaith penderfyniadau, camau gweithredu ac amgylchiadau
  - dod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol
  - datblygu dealltwriaeth o eiriolaeth ar ran eu hunain ac ar ran eraill drwy gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

1 https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig

2 https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/egwyddorion-cynnydd

© WJEC CBAC Ltd 2025.

- cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[3] drwy roi'r cyfle i ddysgwyr:
  - ddatblygu sgiliau llythrennedd, gallu trefnu ysgrifennu ac addasu iaith yn hyderus, gan alluogi dysgwyr i ymgeisio am lwybrau dysgu a gyrfa o'u dewis, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a / neu ofal plant o bosibl
  - cefnogi dysgwyr i archwilio a deall newidiadau datblygiadol ar hyd y rhychwant oes yn fanwl, yn ogystal â sut mae'r newidiadau hynny yn effeithio ar unigolion mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol
  - dysgu a deall sut i asesu a rheoli risg fel y gallan nhw gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, gan gynnwys diogelu mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - adfyfyrio ar oblygiadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud. Dylid cydnabod nad oes gan ddysgwyr o reidrwydd gyfrifoldeb dros lawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a bod y cyfrifoldeb hwn yn tyfu dros gyfnod o amser
  - deall y rôl y gall dylanwadau cymdeithasol ei gael ar ymddygiad y dysgwr, a'r dylanwadau a all hybu ac annog ymddygiadau cymdeithasol-fuddiol, yn ogystal â'r rhai sy'n arwain at faterion megis gwahaniaethu, hiliaeth neu ragfarn ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - deall rôl a phwysigrwydd perthnasoedd megis teulu a ffrindiau, anifeiliaid/anifeiliaid anwes, cyfoedion, proffesiynol, rhithiol, rhamantus, rhywiol, crefyddol ac ysbrydol – drwy gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, a'r perthnasoedd hynny nad ydynt eto'n gyfarwydd iddyn nhw ond eu bod yn debygol iawn o ddod ar eu traws yn ystod eu bywydau neu wrth weithio yn y sectorau.

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn rhoi sylfaen addas ar gyfer astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar un ai lefel UG neu Safon Uwch, a chymwysterau Lefel 2 yn y pwnc. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/cynllunio-eich-cwricwlwm/

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Mae terminoleg wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn dal i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn golygu nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

## Gwybodaeth am Unedau

Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i archwilio hawliau dynol ac amrywiaeth drwy'r tair uned, gan gynnwys ystyried y canlynol:

- mynediad at wasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- effaith y broses o ddarparu a chyflenwi gwasanaethau ar ganlyniadau mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant, profiadau a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

## Uned 1

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru yn yr 21ain Ganrif**

Arholiad ysgrifenedig
40% o'r cymhwyster
80 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- cylchred bywyd a'r ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad
- hybu a chynnal iechyd a llesiant ac adnoddau y gellir eu defnyddio i fesur a chefnogi hyn
- egwyddorion a gwerthoedd craidd, yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a darparu gwasanaethau mewn cyd-destun Cymreig, ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- twf, datblygiad a llesiant dynol drwy gydol cylchred bywyd
- ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant dynol drwy gydol cylchred bywyd
- deddfwriaeth a darparu gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- egwyddorion, gwerthoedd a dulliau craidd wrth weithio ym maes iechyd a gofal, a gofal plant
- hybu a chynnal iechyd a llesiant unigolion drwy gydol eu bywydau
- dangosyddion ac adnoddau i fesur a chefnogi iechyd a llesiant
- y Gymraeg a diwylliant Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">1.1 Twf a Datblygiad</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Egwyddorion twf a datblygiad, a'r prif gamau bywyd drwy gydol cylchred bywyd<br>1.1.2 Meysydd datblygiad allweddol drwy gydol cylchred bywyd<br>1.1.3 Y ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant drwy gydol cylchred bywyd</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>1.1.1<br>Egwyddorion twf a datblygiad, a'r prif gamau bywyd drwy gydol cylchred bywyd</td><td>Dylai dysgwyr wybod ystyr twf a datblygiad sef y newidiadau corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol y mae bodau dynol yn eu profi trwy gydol eu bywydau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• bod twf a datblygiad yn brosesau sy'n dechrau ar adeg cenhedlu ac sy'n parhau trwy gydol bywyd<br>• bod twf yn cyfeirio at newidiadau corfforol, tra bod datblygiad yn cyfeirio at newidiadau mewn gallu i weithredu<br>• yr egwyddorion datblygiad plant canlynol:<br>  ◦ cefnogi datblygiad plant<br>  ◦ dilyniant datblygiad plant<br>  ◦ datblygiad plant cydberthynol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am y camau bywyd canlynol o ran twf a datblygiad:<br>• babandod 0-2 oed<br>• plentyndod 3-12 oed<br>• llencyndod 13-19 oed<br>• oedolaeth 20-64 oed<br>• oedolaeth ddiweddarach 65+ oed.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 1.1.2<br>Meysydd datblygiad allweddol drwy gydol cylchred bywyd | Dylai dysgwyr ddeall meysydd a nodweddion allweddol datblygiad drwy gydol cylchred bywyd:<br>• Datblygiad corfforol:<br>  ◦ twf y corff<br>  ◦ cryfder<br>  ◦ glasoed<br>  ◦ Y menopos<br>  ◦ oedran a heneiddio.<br>• Datblygiad deallusol:<br>  ◦ datblygiad y cof<br>  ◦ sut mae plant yn dysgu<br>  ◦ uchafbwynt gallu deallusol yn ystod canol oedolaeth<br>  ◦ Gall y cof ddod yn llai effeithlon yn ystod oedolaeth ddiweddarach.<br>• Datblygiad iaith:<br>  ◦ camau cyfathrebu<br>  ◦ anawsterau o ran cyfathrebu, gan gynnwys oedi wrth ddatblygu iaith.<br>• Datblygiad emosiynol:<br>  ◦ datblygu teimladau ac empathi<br>  ◦ bondio ac ymlyniad<br>  ◦ hunan-barch, hunanhyder, ac annibyniaeth.<br>• Datblygiad cymdeithasol:<br>  ◦ sgiliau cymdeithasol<br>  ◦ cymdeithasoli. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 1.1.3<br>Y ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant drwy gydol cylchred bywyd | Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion drwy gydol cylchred bywyd gan gynnwys:<br><br>Cymdeithasegol:<br>• amrywiaeth ddiwylliannol ac hil, gan gynnwys manteision a heriau byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol<br>• gwahaniaethu oherwydd nodweddion gwarchodedig, er enghraifft rhywedd a thrawsrywedd<br>• amgylcheddol, gan gynnwys cyflwr tai a lleoliad, llygredd aer, argaeledd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, cyfleoedd i chwarae ac adnoddau<br>• teulu, gan gynnwys  dulliau rhianta, perthnasoedd, ysgariad<br>• ffrindiau: cymdeithasoli, arwahanu, stereoteipio, pwysau gan gyfoedion<br>• dylanwad cymdeithas, modelau rôl a'r cyfryngau<br>• ffordd o fyw, gan gynnwys maeth, deiet, ymarfer corff, dewisiadau ffordd o fyw<br>• economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys incwm; tlodi a chyfoeth.<br><br>Seicolegol:<br>• cam-drin, gan gynnwys emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol, esgeuluso, ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi<br>• profiadau niweidiol yn ystod plentyndod<br>• profiadau addysgol a throsglwyddiadau<br>• profiadau bywyd a chyfnodau o drawsnewid gan gynnwys rhai disgwyliedig ac annisgwyl<br>• hunan-barch, gwahaniad, ymlyniad gwael.<br><br>Biolegol:<br>• anableddau, iechyd gwael, clefyd, anaf<br>• rhyw<br>• etifeddiad genetig<br>• anableddau dysgu. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.2 Deddfwriaeth a Darpariaeth Gwasanaethau** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1 Deddfwriaeth allweddol sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru<br>1.2.2 Yr egwyddorion, gwerthoedd a'r dulliau craidd a ddefnyddir wrth weithio mewn sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru<br>1.2.3 Effaith darparu a chyflenwi gwasanaethau yng Nghymru ar unigolion | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.2.1<br>Deddfwriaeth allweddol sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru | Dylai dysgwyr ddeall bod deddfwriaeth yn sail i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru ac yn cael ei gweithredu i gefnogi a hybu iechyd a llesiant y boblogaeth. Dylai dysgwyr deall egwyddorion allweddol y ddeddfwriaeth gyfredol ganlynol:<br>• Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf Plant 1989 a 2004<br>• Datganiad o hawliau pobl hŷn yng Nghymru 2014. |
| 1.2.2<br>Yr egwyddorion, gwerthoedd a'r dulliau craidd a ddefnyddir wrth weithio mewn sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru | Dylai dysgwyr ddeall yr egwyddorion, gwerthoedd a'r dulliau craidd a ddefnyddir wrth weithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru:<br>• dulliau seiliedig ar hawliau: rhaid i weithwyr anelu at sicrhau eu bod yn darparu dull cynhwysol sy'n seiliedig ar hawliau a bod eu hymarfer yn hybu gwrth-hiliaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth, nad yw'n gwahaniaethu, a'i fod yn dangos parch at gredoau, dewisiadau, diwylliannau, gwerthoedd a dewisiadau<br>• eiriolaeth: sut mae gweithwyr yn cyfrannu at gefnogi dull seiliedig ar hawliau drwy sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed, waeth beth fo'i anghenion neu ei allu wrth gyfathrebu<br>• dulliau person-ganolog: dylai dysgwyr ddeall bod dulliau person-ganolog wrth wraidd gofal a chefnogaeth i unigolion a bod y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir yn bodloni eu hanghenion personol<br>• cyfranogiad gweithredol: galluogi unigolion i gael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal eu hunain, cael dweud eu dweud am sut maen nhw'n byw eu bywydau a chydnabod eu hawl i gymryd rhan yng ngweithgareddau a swyddogaethau bywyd bob dydd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 1.2.3<br>Effaith darparu a chyflenwi gwasanaethau yng Nghymru ar unigolion | Dylai dysgwyr wybod bod darparu a chyflenwi gwasanaethau yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru, gan gynnwys yr effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant defnyddwyr gwasanaeth.<br>Dylai dysgwyr allu nodi a rhoi enghreifftiau o'r gwahanol fathau o ddarpariaeth gwasanaethau yn y sectorau a'r ffyrdd y mae'r rhain yn effeithio'n gadarnhaol ar unigolion yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• sector gofal statudol: gwasanaethau y mae Llywodraeth Cymru yn talu amdanynt ac yn eu darparu gan gynnwys:<br>  ◦ gofal plant: meithrinfeydd, ysgolion cynradd ac uwchradd, darparwyr Dechrau'n Deg<br>  ◦ iechyd a gofal cymdeithasol: byrddau iechyd, ysbytai, canolfannau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol, gofal cymdeithasol plant, gofal cymdeithasol i oedolion.<br>• y sector annibynnol: gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg fel busnes i wneud elw ac sy'n cael eu hariannu gan unigolion a / neu eu polisïau yswiriant, gan gynnwys:<br>  ◦ gofal plant: crèche, meithrinfa ddydd, gwarchodwyr plant, nanis<br>  ◦ iechyd a gofal cymdeithasol: BUPA, deintyddion, cartrefi preswyl / nyrsio, ymarferwyr hunangyflogedig.<br>• y trydydd sector: gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau nid-er-elw yn y sector gofal gwirfoddol, gan gynnwys:<br>  ◦ grwpiau cymorth lleol sy'n defnyddio gwirfoddolwyr: cylchoedd chwarae, Cylch Meithrin, grwpiau cwnsela a phrofedigaeth a sefydliadau nid-er-elw â gweithwyr cyflogedig, Barnardo's, Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC), Childline, Macmillan, hosbisau<br>  ◦ elusennau cofrestredig, er enghraifft: Achub y Plant, Gweithredu dros Blant, Mind, Marie Curie, Scope, Y Gymdeithas Strôc<br>• gofal di-dâl: gan gynnwys gofal personol a ddarperir gan deuluoedd a gofalwyr ifanc sydd â hawl i gael asesiad o'u hanghenion.<br><br>Dylai dysgwyr wybod sut mae'r sefydliadau rheoleiddio canlynol yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru yn bodloni safonau sefydledig ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth:<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<br>• Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)<br>• Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn). |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.3 Cyd-destun Cymreig** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1 Hybu a chynnal iechyd a llesiant unigolion drwy gydol eu bywydau<br>1.3.2 Y Gymraeg a diwylliant Cymru yng nghyd-destun iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant<br>1.3.3 Safbwyntiau a phrofiadau diwylliannol unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.3.1<br>Hybu a chynnal iechyd a llesiant unigolion drwy gydol eu bywydau | Dylai dysgwyr wybod bod Cymru yn defnyddio nifer o ddangosyddion a dulliau i fesur a chefnogi iechyd a llesiant, gan gynnwys:<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef y ddeddfwriaeth gyffredinol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru sy'n effeithio ar bob sector iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. Dylai dysgwyr wybod beth yw'r saith nod ar gyfer Cymru a osodwyd gan y ddeddf.<br>• Mae Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd yn cynnwys dangosyddion fel: disgwyliad oes adeg geni, y bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig, rhai sy'n gadel yr ysgol gyda sgiliau a chymwysterau, ansawdd tai, ansawdd yr aer, ysmygu yn ystod beichiogrwydd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y gall dangosyddion llesiant gynnwys:<br>• ystadegau: cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth, tai, incwm, tlodi plant, diogelwch, ansawdd yr amgylchedd<br>• arolygon a holiaduron<br>• mesuriadau ffisiolegol: taldra, pwysau, pwysedd gwaed, tymheredd, anterth llif, cyfradd curiad y galon, pwls, lefelau siwgr gwaed<br>• data ffordd o fyw: yfed alcohol, cyfraddau ysmygu, lefelau gordewdra.<br><br>Dylai dysgwyr wybod sut y gellir cefnogi unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan gynnwys mesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar:<br>• addysgu: dewisiadau cadarnhaol o fyw mewn perthynas â risgiau penodol yn ymwneud ag iechyd a llesiant<br>• imiwneiddio<br>• cyfrifoldeb personol ac rhiant am iechyd a llesiant<br>• rhaglenni sgrinio<br>• dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru 2017.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall yr angen am ymgyrchoedd hyrwyddo a mentrau sydd wedi'u targedu at godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant gyda chynulleidfaoedd penodol ar lefel leol a chenedlaethol, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><td></td><td>Dylai dysgwyr ddeall bod ‘Cymru Iachach’ Llywodraeth Cymru yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer sector iechyd a gofal cymdeithasol sy’n cydweithio i ganolbwyntio ar lesiant ac atal salwch, drwy ymyriadau clinigol llai dwys, symud gwasanaethau o’r ysbyty i gymunedau a chefnogi unigolion i fyw bywydau iach a hapus.<br><br>Dylai dysgwyr wybod bod y mentrau a'r ymgyrchoedd canlynol gan Lywodraeth Cymru yn hybu gwelliannau i iechyd a llesiant poblogaeth Cymru:<br>• Dechrau'n Deg<br>• Strategaeth Pwysau iach: Cymru Iach<br>• Siarad â fi 2<br>• Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.</td></tr>
<tr><td>1.3.2<br>Y Gymraeg a diwylliant Cymru yng nghyd-destun iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant</td><td>Dylai dysgwyr ddeall sut mae cydnabod anghenion iaith Gymraeg a diwylliannol unigolion yn elfennau hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae cydnabod a pharchu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol yn hybu canlyniadau gwell, yn gwella urddas ac yn cefnogi ymddiriedaeth i unigolion.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd ac effaith y Gymraeg a diwylliant Cymru wrth wella ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth a sut mae'r Cynnig Rhagweithiol yn:<br>• sicrhau bod yr iaith Gymraeg mor weladwy â'r iaith Saesneg, a bod unigolion yn gallu derbyn gwasanaethau wedi'u darparu yn y Gymraeg heb orfod gofyn<br>• cysylltu â chanllawiau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth ar y Gymraeg, er enghraifft Fframwaith Strategol y Gymraeg (Mwy na geiriau...) a rôl Comisiynydd y Gymraeg.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr>
<td>1.3.3<br>Safbwyntiau a phrofiadau diwylliannol unigolion Du, Asiaidd ac unigolion ethnig lleiafrifol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant</td>
<td>Dylai dysgwyr ddeall bod anghydraddoldebau hil yn bodoli ym maes iechyd a gall effeithio ar fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant gan gynnwys:
<ul>
<li>unigrwydd, ynysu, gwahaniaethu, ac anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd</li>
<li>gorgynrychiolaeth o leiafrifoedd o ran hil ac ethnigrwydd mewn swyddi cyflogau/statws is ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod y canlynol:
<ul>
<li>mae Llywodraeth Cymru wedi nodi camau gweithredu i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb hil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, gan gynnwys ffyrdd o wella profiadau a chanlyniadau staff iechyd a gofal cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau o leiafrifoedd o ran hil ac ethnigrwydd</li>
<li>mae'r lleoliadau wedi arwain ar:
<ul>
<li>cynnwys plant a rhieni neu ofalwyr wrth ddathlu amrywiaeth, gan gynnwys creu amgylcheddau cynhwysol, trwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant, a chreu polisïau yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant mewn ysgolion</li>
<li>rheoli ac adrodd am ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion.</li>
</ul></li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod am bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys egwyddorion:
<ul>
<li>Deddf Hawliau Dynol 1998</li>
<li>Deddf Cydraddoldeb 2010</li>
</ul>
Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2024 sy'n parhau.</td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 2

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion**

Asesiad Di-arholiad: 12 awr
Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- anghenion unigolion a chyflyrau ac afiechydon allweddol mewn oedolaeth
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol
- rôl hybu iechyd ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- fathau o ofal i ddiwallu anghenion unigol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio er mwyn diwallu anghenion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion
- iechyd y cyhoedd a hybu iechyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- cyflyrau ac afiechydon allweddol mewn oedolaeth.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">2.1 Anghenion unigolion a chyflyrau ac afiechydon allweddol mewn oedolaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn cynyddu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.1.1 Anghenion unigol<br>2.1.2 Afiechydon<br>2.1.3 Amodau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>2.1.1<br>Anghenion unigol</td><td>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd ystod o anghenion gofal unigol a all godi yn ystod bywyd oedolyn er mwyn sicrhau eu bod yn byw bywyd iach a boddhaus gan gynnwys:<br>• hierarchaeth anghenion Maslow<br>• corfforol: deiet, ymarfer corff, hylendid, cwsg<br>• deallusol: cymryd rhan mewn gwaith, addysg, hyfforddiant a hobïau<br>• iaith: rhugldera, cywirdeb, ystyr, strwythur, terminoleg briodol<br>• emosiynol: iechyd meddwl, amddiffyn rhag cam-drin, hunangysyniad, ymdeimlad o bwrpas<br>• cymdeithasol: perthnasoedd ag eraill, annibyniaeth, arwahanu.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 2.1.2<br>Salwch | Dylai dysgwyr ddeall y bydd oedolion yn wynebu afiechydon cyffredin drwy gydol eu hoes, a gallu adnabod yr effeithiau tymor byr posibl ar eu hiechyd a'u llesiant, gan gynnwys:<br>• heintiau resbiradol: haint ar y frest, llid y sinysau, tonsilitis<br>• heintiau firol: annwyd cyffredin, ffliw, COVID, twymyn, sepsis<br>• heintiau bacteriol: haint yn y glust, niwmonia, meningitis, sepsis<br>• haint gastrogoluddol: norofeirws, gwenwyn bwyd. |
| 2.1.3<br>Amodau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru | Dylai dysgwyr ddeall y cyflyrau allweddol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol tymor hir oedolion gan gynnwys y gwahanol gyflyrau yn y boblogaeth neu mewn cymunedau yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr allu adnabod a gwybod yr arwyddion a'r symptomau allweddol ar gyfer y cyflyrau canlynol, a'r effaith ar iechyd a llesiant:<br><br>Ffisegol:<br>• asthma<br>• canser y coluddyn, y fron, yr ysgyfaint a'r prostad<br>• clefyd y galon<br>• pwysedd gwaed uchel<br>• y menopos<br>• diabetes math 1<br>• diabetes math 2<br><br>Meddyliol:<br>• gorbryder<br>• iselder, (gan gynnwys iselder ôl-enedigol)<br>• Anhwylder Obsesiynol-gorfodaethol (OCD)<br>• Anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD). |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 2.2 Sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn cynyddu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>2.2.2 Gweithio mewn partneriaeth<br>2.2.3 Sicrhau canlyniadau cadarnhaol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 2.2.1<br>Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | Dylai dysgwyr allu enwi'r gwahanol weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a deall sut y gallant ddiwallu anghenion oedolion, gan gynnwys:<br>• Gweithiwr eiriolaeth<br>• Ymgynghorydd<br>• Deintydd<br>• Deietegydd<br>• Meddyg Teulu<br>• Nyrs<br>• Therapydd galwedigaethol – clinigol a chymunedol<br>• Optegydd<br>• Seicolegydd<br>• Gweithiwr Cymdeithasol<br>• Gweithiwr Gofal Cymdeithasol<br>• Swyddog Hawliau Lles.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o ofynion pob rôl o ran:<br>• rolau a chyfrifoldebau<br>• sgiliau a rhinweddau. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr>
<td>2.2.2<br>Gweithio mewn partneriaeth</td>
<td>Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol ffyrdd y gall gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i symleiddio a gwella cydweithio a chyfathrebu rhwng asiantaethau, gan sicrhau bod unigolion yn derbyn gofal effeithiol.<br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae pob un o'r canlynol yn cyfrannu at weithio mewn partneriaeth:<br>• gweithio amlasiantaethol<br>• timau amlddisgyblaethol<br>• paneli amlasiantaethol<br>• gwasanaethau integredig.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r codau ymarfer a gynhyrchir gan y cyrff rheoleiddiol sy'n pennu'r safonau ymarfer a'r ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant a'u cyflogwyr wrth weithio ar y cyd:<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru: Er mwyn darparu'r gofal a'r gefnogaeth orau, mae gweithwyr gofal yn dilyn set o godau. Mae'n rhaid iddynt:<br>    • helpu unigolion i ddweud a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw<br>    • parchu urddas, preifatrwydd, dymuniadau, diwylliant, iaith, hawliau, credoau, safbwyntiau a dymuniadau unigolion<br>    • cefnogi plant i gadw'n ddiogel<br>    • bod yn onest, gallu ymddiried ynddynt, a bod yn ddibynadwy<br>    • bod yn gymwys i wneud eu gwaith yn iawn.<br>• Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau o arolygu. Maent yn ystyried sut mae darparwyr gwasanaeth yn hybu hawliau pobl trwy ystyried sut mae gwasanaethau yn sicrhau bod y canlynol yn wir am unigolion:<br>    • bod ganddynt ddewis a rheolaeth<br>    • eu bod yn ddiogel<br>    • eu bod yn cael eu trin â pharch<br>    • bod ganddynt lais<br>    • eu bod yn cael eu helpu i ddatblygu eu potensial llawn.<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn benodol ei rôl o ran cofrestru a rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol.</td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 2.2.3<br>Sicrhau canlyniadau cadarnhaol | Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn pan fydd gweithwyr proffesiynol yn gweithio gydag oedolion yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd nodi nodau personol er mwyn cefnogi oedolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, a gellir dangos hyn trwy:<br>• rymuso unigolion<br>• annog cyfranogiad gweithredol<br>• What Matters Conversations<br>• darparu gwasanaethau eiriolaeth.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd diogelu oedolion wrth weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a deall beth yw ystyr y term 'oedolyn mewn perygl', gan gynnwys:<br>• Gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan 2019 a rôl y broses ddiogelu; nodi pryderon a'r ddyletswydd i roi gwybod am y pryderon hyn. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **2.3** | **Rôl iechyd y cyhoedd, hybu iechyd ac hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol i oedolion yng Nghymru** |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn cynyddu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.3.1 Rôl hybu iechyd<br>2.3.2 Iechyd y cyhoedd<br>2.3.3 Mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau | |

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.3.1<br>Rôl hybu iechyd | Dylai dysgwyr ddeall pwrpas hybu iechyd a'r prif ffocws ar gyfer hyn: bwyta'n iach, rhoi'r gorau i ysmygu, rheoli straen, rhyw diogel, ymarfer corff, hylendid, arwahanu cymdeithasol, a bwlio.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall rôl hybu iechyd o ran sicrhau bod oedolion yn cael eu hannog i fyw bywyd iach.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o bwrpas a nodau'r gwahanol fentrau neu ymgyrchoedd iechyd i gefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• Cymru iachach<br>• Curo'r Ffliw (Beat Flu)<br>• Canllaw Bwyta'n Dda<br>• Her Iechyd Cymru<br>• Helpa Fi i Stopio<br>• Ymgyrchoedd Mind Cymru<br>• Gofal iechyd darbodus<br>• Iechyd Rhywiol Cymru. |
| 2.3.2<br>Iechyd y cyhoedd | Dylai dysgwyr ddeall pwrpas iechyd y cyhoedd, heriau iechyd y cyhoedd a manteision iechyd y cyhoedd i oedolion sy'n byw yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall bod amrywiaeth o frechiadau a phrofion sgrinio ar gael i oedolion yng Nghymru i helpu i hybu iechyd da a lleihau unrhyw risg o salwch neu afiechyd, gan gynnwys:<br>• Sgrinio'r coluddion<br>• Sgrinio'r fron<br>• Sgrinio Serfigol Cymru<br>• Brechiad COVID<br>• Sgrinio llygaid diabetig<br>• Brechiad ffliw. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 2.3.3<br>Mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru a deall sut mae darparwyr gwasanaeth yn sicrhau mynediad cyfartal i bawb.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth weithio gydag oedolion ym maes gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol:<br>• Cydraddoldeb: yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a sut mae hon yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dylai dysgwyr wybod am y naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol<br>• Amrywiaeth : Dylai unigolion deimlo eu bod yn cael eu parchu a'u derbyn wrth ddefnyddio gwasanaethau, gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos dealltwriaeth glir ac yn cydnabod bod pob unigolyn yn unigryw ac yn cael ei werthfawrogi, gan gynnwys y Cynnig Rhagweithiol<br>• Cynhwysiant: mae hwn yn hawl ddynol, dylai pob unigolyn gael ei gynnwys a'i groesawu gan y gwasanaethau, ei drin yn gyfartal ac ni ddylid gwahaniaethu yn ei erbyn mewn unrhyw ffordd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 3

**Gofal Plant**

Asesiad Di-arholiad: 12 awr
Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- camau bywyd, cerrig milltir disgwyliedig, a datblygiad corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol
- cyflyrau ac afiechydon allweddol ymhlith plant
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio, gan gynnwys chwarae a gwaith chwarae, i fodloni anghenion plant yng Nghymru er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- cyfnodau bywyd, cerrig milltir disgwyliedig, a datblygiad corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol
- chwarae a gwaith chwarae
- mathau o ofal ac ymyriadau i fodloni anghenion plant a chyflawni canlyniadau cadarnhaol
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio er mwyn bodloni anghenion plant
- hybu iechyd ac ymyrraeth gynnar ym maes gofal plant
- cyflyrau ac afiechydon allweddol ymhlith plant.

**Meysydd cynnwys**

| **3.1 Camau bywyd, cerrig milltir disgwyliedig, a datblygiad corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1 Camau bywyd a cherrig milltir disgwyliedig<br>3.1.2 Datblygiad corfforol a cherrig milltir disgwyliedig<br>3.1.3 Datblygiad deallusol a cherrig milltir disgwyliedig<br>3.1.4 Datblygiad Iaith a cherrig milltir disgwyliedig<br>3.1.5 Datblygiad Emosiynol a cherrig milltir disgwyliedig<br>3.1.6 Datblygiad cymdeithasol a cherrig milltir disgwyliedig | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.1.1<br>Camau bywyd a cherrig milltir disgwyliedig | Dylai dysgwyr wybod bod plant yn mynd trwy'r camau bywyd canlynol:<br>• babandod 0-2 oed<br>• plentyndod 3-12 oed<br>• llencyndod 13-19 oed.<br><br>Dylai dysgwyr wybod bod pob cam bywyd yn cynnwys cerrig milltir datblygiadol disgwyliedig. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 3.1.2<br>Datblygiad corfforol a cherrig milltir disgwyliedig | Dylai dysgwyr ddeall datblygiad corfforol a cherrig milltir plant yn ystod eu babandod 0-2 oed, eu plentyndod 3-12 oed a'u llencyndod 13-19 oed gan gynnwys:<br>• sgiliau echddygol bras<br>• sgiliau echddygol manwl<br>• symud a chydsymud<br>• twf y corff a chryfder. |
| 3.1.3<br>Datblygiad deallusol a cherrig milltir disgwyliedig | Dylai dysgwyr ddeall datblygiad deallusol a cherrig milltir plant yn ystod babandod 0-2 oed, plentyndod 3-12 oed a llencyndod 13-19 oed gan gynnwys:<br>• datblygiad gwybyddol<br>• datrys problemau<br>• meddwl yn greadigol<br>• galluedd meddyliol a datblygiad meddyliol. |
| 3.1.4<br>Datblygiad iaith a cherrig milltir disgwyliedig | Dylai dysgwyr ddeall datblygiad iaith a cherrig milltir plant yn ystod babandod 0-2 oed, plentyndod 3-12 oed a llencyndod 13-19 oed gan gynnwys:<br>• iaith dderbyniadol<br>• datblygu geirfa<br>• iaith fynegiannol. |
| 3.1.5<br>Datblygiad emosiynol a cherrig milltir disgwyliedig | Dylai dysgwyr ddeall datblygiad emosiynol a cherrig milltir plant yn ystod babandod 0-2 oed, plentyndod 3-12 oed a llencyndod 13-19 oed gan gynnwys:<br>• hunanymwybyddiaeth<br>• empathi<br>• rheoleiddio emosiynol<br>• datblygiad emosiynol<br>• damcaniaeth datblygiad gan gynnwys damcaniaeth ac ymddygiadau ymlyniad, John Bowlby. |
| 3.1.6<br>Datblygiad cymdeithasol a cherrig milltir disgwyliedig | Dylai dysgwyr ddeall datblygiad cymdeithasol plant yn ystod babandod 0-2 oed, plentyndod 3-12 oed a llencyndod 13-19 oed gan gynnwys:<br>• sgiliau cymdeithasol<br>• perthnasoedd â chyfoedion<br>• ymwybyddiaeth ddiwylliannol<br>• datblygiad ymddygiad<br>• damcaniaeth datblygiad gan gynnwys arbrawf dol Bobo, Albert Bandura. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **3.2 Cyflyrau ac afiechydon cyffredin ymhlith plant** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1 Afiechydon cyffredin plentyndod<br>3.2.2 Pryderon yn ymwneud â thwf a datblygiad<br>3.2.3 Hybu iechyd, ymyrraeth gynnar, a mathau o ofal<br>3.2.4 Rhaglen Plant Iach Cymru | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.2.1<br>Afiechydon cyffredin plentyndod | Dylai dysgwyr allu adnabod yr afiechydon cyffredin plentyndod canlynol a dylent ddeall y gofal priodol a'r ymyrraeth amserol, y symptomau, yr achosion a'r driniaeth ar gyfer pob salwch:<br>• heintiau resbiradol: asthma, niwmonia, crŵp a’r pas<br>• heintiau bacteriol: llid yr ymennydd, llid y gyfbilen, heintiau yn y glust a thonsilitis<br>• heintiau firol: brech yr ieir, y frech goch, clwy'r pennau, a chlefyd y dwylo, y traed a'r genau<br>• heintiau gastrogoluddol: gastroenteritis bacteriol, gastroenteritis firol, anoddefeddau bwyd, a norofeirws.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran rheoli heintiau mewn lleoliadau gofal plant, gan gynnwys cyfnodau gwahardd ar gyfer rheoli heintiau, clefydau hysbysadwy a gofynion adrodd. |
| 3.2.2<br>Pryderon yn ymwneud â thwf a datblygiad | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o bryderon yn ymwneud â thwf a datblygiad, gan gynnwys:<br>• pryderon am oedi o ran datblygiad a thwf: diffyg cynnydd, ffactorau cyn-geni ac amenedigol, anhwylderau genetig, etifeddol a ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys methiannau organig ac anorganig<br>• anhwylderau datblygiadol: anhwylder sbectrwm awtistiaeth, gan gynnwys, symptomau a thriniaeth, a'r anawsterau gyda rhyngweithio cymdeithasol. anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, gan gynnwys , symptomau a thriniaeth gan gynnwys, ymddygiadau byrbwyll<br>• anableddau deallusol ac anhwylderau dysgu: ymyrraeth gynnar, cymorth ac arweiniad ar ymddygiad ymaddasol a chynlluniau datblygu unigol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 3.2.3<br>Hybu iechyd, ymyrraeth gynnar, a mathau o ofal | Dylai dysgwyr ddeall rôl hybu iechyd ac ymyrraeth gynnar, gan gynnwys:<br>• addysg / hybu gofal iechyd: atal a rheoli clefydau yng Nghymru a'r DU gan gynnwys codi ymwybyddiaeth a gwella hylendid<br>• imiwneiddio a brechu: rhaglenni imiwneiddio a brechu arferol a argymhellir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i atal llawer o afiechydon yn ystod plentyndod<br>• atal, diagnosis, **triniaeth** a rheoli gofal: adnabod symptomau yn gynnar, gofal cefnogol, ceisio sylw meddygol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol fathau o ofal ac ymyrraeth a ddefnyddir i fodloni anghenion plant er mwyn cael canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys:<br>• gofal iechyd arferol: archwiliadau meddygol rheolaidd, brechiadau a thriniaethau ar gyfer gofal iechyd ar gyfer afiechydon ac anafiadau.<br>• maeth a deiet: darparu deiet maethlon cytbwys, addas i'r oedran, sy'n cefnogi iechyd ac iechyd a llesiant cadarnhaol<br>• cwsg a gorffwys: gan gynnwys bodloni anghenion gofal corfforol ac amgylcheddau a threfnau arferol priodol<br>• rhaglenni ymyrraeth gynnar: gan gynnwys rhaglenni sgiliau rhianta, rhaglenni cefnogi i deuluoedd a gwasanaethau cymdeithasol. |
| 3.2.4<br>Rhaglen Plant Iach Cymru | Dylai dysgwyr wybod beth yw pwrpas Rhaglen Plant Iach Cymru:<br>• gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi'u targedu: gwasanaeth iechyd cyffredinol i bob plentyn, cefnogaeth o gyfnod y beichiogrwydd hyd nes bod y plentyn yn saith oed, ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer anghenion iechyd neu gymdeithasol penodol<br>• archwiliadau ac asesiadau iechyd: asesiadau iechyd cyfnodau allweddol yn ystod datblygiad plentyn, sgriniadau arferol<br>• cefnogaeth i rieni a gofalwyr: cefnogaeth gan gynnwys bwydo o'r fron, maeth, cwsg a gwybodaeth am ofal iechyd a llesiant. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **3.3 Sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio, gan gynnwys chwarae a gwaith chwarae, i fodloni anghenion plant yng Nghymru er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.3.1 Darparu gwasanaethau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol<br>3.3.2 Gweithio mewn partneriaeth<br>3.3.3 Rôl gweithwyr gofal plant proffesiynol<br>3.3.4 Manteision chwarae a gwaith chwarae | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.3.1<br>Darparu gwasanaeth i sicrhau canlyniadau cadarnhaol | Dylai dysgwyr ddeall bod gofal plant yn cyfeirio at ddarpariaeth gofal ac addysg gynnar i blant ifanc, fel arfer o'u genedigaeth i oed ysgol, gan gynnwys gofal cyn / ar ôl ysgol a'i fod yn cael ei ddarparu trwy amrywiaeth o wasanaethau preifat a statudol.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o fynediad at ddarpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys:<br>• mathau o leoliadau gofal plant a gwasanaethau chwarae: gwasanaethau sy'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol ac ysgolion gan gynnwys: Cylch Meithrin, Cylch Ti a Fi<br>• mynediad at wasanaethau gofal plant a chwarae yng Nghymru: cael mynediad at wasanaethau er mwyn i blant gael profiad o ardaloedd chwarae a chyfleoedd hygyrch, amrywiol sy'n eu cyfoethogi, gan gynnwys canlyniadau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a rhwystrau i fynediad at wasanaethau<br>• egwyddorion cynhwysiant: amrywiaeth a thegwch, hyrwyddo mynediad teg at wasanaethau gofal plant a sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i gymryd rhan.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd diogelu wrth weithio yn y sector gofal plant a deall beth yw ystyr y term ‘plant a phobl ifanc mewn perygl o niwed’, gan gynnwys:<br>• Gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan 2019 a rôl y broses ddiogelu; nodi pryderon a'r ddyletswydd i roi gwybod am y pryderon hyn. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 3.3.2<br>Gweithio mewn partneriaeth | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys:<br>• partneriaid allweddol ym maes gofal plant: darpariaeth cyfathrebu a chefnogaeth effeithiol i rieni a theuluoedd, rôl gweithwyr proffesiynol gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol<br>• Chwarae Cymru: Meysydd allweddol o waith Chwarae Cymru, gan gynnwys cefnogaeth i weithwyr chwarae ac ymarferwyr gofal plant, a chydweithio i sefydlu partneriaethau gyda darparwyr addysg a gofal plant mewn lleoliadau.<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC): manteision gweithio mewn partneriaeth, darparu gofal o ansawdd ac ymyrraeth gynnar, AGC yw'r corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gwasanaethau fel gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau chwarae yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol ffyrdd y gall gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i symleiddio a gwella cydweithio a chyfathrebu er mwyn bodloni anghenion plant yng Nghymru i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. |
| 3.3.3<br>Rôl gweithwyr gofal plant proffesiynol | Dylai dysgwyr wybod beth yw rôl gweithwyr gofal plant proffesiynol, mewn lleoliadau preifat a statudol, gan gynnwys:<br>• gweithwyr gofal plant:<br>    • cynorthwywyr addysg gynnar a gofal plant (cynorthwywyr meithrin)<br>    • ymarferwyr addysg gynnar a gofal plant (nyrsys meithrin)<br>    • gwarchodwyr plant<br>• rheolwyr a goruchwylwyr meithrinfa<br>• cynorthwywyr addysgu<br>• cefnogaeth un-i-un neu gynorthwywyr cymorth dysgu<br>• gweithwyr chwarae. |
| 3.3.4<br>Manteision chwarae a gwaith chwarae | Dylai dysgwyr ddeall manteision chwarae a gwaith chwarae, gan gynnwys:<br>• pwysigrwydd chwarae yn natblygiad plant (datblygiad corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol)<br>• cyfnodau chwarae<br>• egwyddorion gwaith chwarae (Chwarae Cymru)<br>• chwarae dan do ac yn yr awyr agored<br>• cefnogi chwarae trwy strategaethau galluogi a dulliau ymddygiad cefnogol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- archwilio darpariaeth a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant lleol creu cysylltiadau sy'n datblygu ymdeimlad cryfach o cynefin
- archwilio cyfleoedd gyrfa o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- clywed yn uniongyrchol gan, ac ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, i gael gwerthfawrogiad o'u profiadau o weithio yn y sector
- gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol
- datblygu sgiliau cydweithio a gwaith tîm drwy weithio gydag eraill a dysgu oddi wrthynt.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
**Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau, gwerthoedd a materion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

**AA2**
**Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau, gwerthoedd a materion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

**AA3**
**Dadansoddi, gwerthuso ac ymchwilio** i werthoedd, materion a darpariaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan lunio barnau wedi'u rhesymu a dod i gasgliadau.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu i bob uned ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

| | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 25% | 10% | 5% | 40% |
| Uned 2 | - | 17.5% | 12.5% | 30% |
| Uned 3 | - | 17.5% | 12.5% | 30% |
| Pwysoliad cyffredinol | **25%** | **45%** | **30%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

**Uned 2**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau asesiad yn seiliedig ar ddewis o ddau astudiaeth achos lle maent yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion. Gall dysgwyr ddewis un o ddau astudiaeth achos yr hoffent ei gwblhau ar gyfer yr asesiad di-arholiad. Nid oes angen i'r garfan gyfan ddewis yr un astudiaeth achos.

Bydd yr asesiad yn cael ei ryddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w asesu yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd yr astudiaethau achos yn newid bob blwyddyn. Ni ddylai'r dysgwyr gael mynediad at yr astudiaethau achos na'r tasgau tan ddechrau'r asesiad. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pryd, yn ystod y flwyddyn academaidd, y mae dysgwyr yn ymgymryd â'r asesiad.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu at 30% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 12 awr i'w gwblhau. Gellid cwblhau'r asesiad mewn sawl sesiwn oherwydd hyd yr asesiad di-arholiad. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 60 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad wedi'i osod yn allanol a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Rhaid cyflwyno asesiadau yn ddigidol.

**Uned 3**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae gofyn i ddysgwyr gwblhau:
- astudiaeth yn seiliedig ar astudiaeth achos
- ymchwiliad

ymchwiliad lle maent yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal plant.

Bydd yr asesiad yn cael ei ryddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w asesu yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd yr astudiaeth achos a'r tasgau yn newid bob blwyddyn, a bydd yr ymchwiliad yn parhau i fod yn statig. Ni ddylai dysgwyr gael gweld yr astudiaeth achos na'r tasgau tan ddechrau'r asesiad. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pryd, yn ystod y flwyddyn academaidd, y mae dysgwyr yn ymgymryd â'r asesiad.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu at 30% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 12 awr i'w gwblhau. Gellid cwblhau'r asesiad mewn sawl sesiwn oherwydd hyd yr asesiad di-arholiad. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 60 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad wedi'i osod yn allanol a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Rhaid cyflwyno asesiadau yn ddigidol.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Ni ddylai ymgeiswyr ymddwyn mewn ffordd annheg wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru a dyfarnu

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ar gael yn 2027 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2028 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2028.

<u>Ymgeiswyr Cyn-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n iau nag 16 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi).</u>

Pennir y rheol derfynol ar 40% o gymhwyster cyffredinol TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif waeth beth fo'u canlyniadau blaenorol yn yr asesiad hwnnw.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r rhan leiaf o'r asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau arholiada safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Ymgeiswyr Ôl-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi)

Nid oes rheol derfynol sy'n berthnasol i Ymgeiswyr ôl-16 ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd ailsefyll uned unigol; fodd bynnag, defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig mwyaf diweddar i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Nid yw'r rheol 'dechrau o'r newydd' yn berthnasol i ymgeiswyr ôl-16.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Nodir y codau cofrestru isod.

| | | **Codau cofrestru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru yn yr 21ain Ganrif | 3900U1 | 3900N1 |
| **Uned 2** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion | 3900U2 | 3900N2 |
| **Uned 3** | Gofal Plant | 3900U3 | 3900N3 |
| **CBAC TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant** | | 3900QS | 3900CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | **UCHAFSWM** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| **Uned 2** | 90 | 81 | 72 | 63 | 54 | 45 | 36 | 27 | 18 |
| **Uned 3** | 90 | 81 | 72 | 63 | 54 | 45 | 36 | 27 | 18 |
| **Dyfarniad Pwnc** | 300 | 270 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 | 90 | 60 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Agwedd Cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Cymhwysedd Digidol | | | |
|---|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.